

Rhan Dau:

Cod Trawshyrwyddo

Yn weithredol o 10 Gorffennaf 2006

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2006

Cynnwys

- 1: Cyflwyniad
- 2: Cefndir
deddfwriaethol
y Cod
- 3: Egwyddorion
- 4: Rheolau
- 5: Canllawiau
- 5: Arweiniad
- 6: Arweiniad
cyffredinol
ar y Cod
Trawshyrwyddo

Cyflwyniad

- 1.1 Dan amodau'r Cod Trawshyrwyddo hwn ('y Cod'), gall darlledwyr teledu hyrwyddo rhaglenni, sianeli a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â darlledu heb i hyrwyddiadau o'r fath gael eu hystyried yn hysbysebu a'u cynnwys wrth gyfrifo munudau hysbysebu.
- 1.2 Mae maint yr hysbysebu y ceir ei ddarlledu ar sianel deledu wedi'i gyfyngu gan y Cod ar amserlennu hysbysebion teledu ('COSTA'). Mae COSTA yn nodi uchafswm yr hysbysebu y gellir ei ddangos mewn awr benodol a throos unrhyw un diwrnod. At ddibenion ("COSTA"), defnyddir y gair 'hysbysebu' i gyfeirio at unrhyw fath o gyhoeddiad hyrwyddo a ddarllidir yn gyfnewid am daliad neu gydnabyddiaeth debyg.
- 1.3 Mae'r Cod yn disodli'r rheolau sy'n rheoleiddio'r broses o hyrwyddo rhaglenni, sianeli a gwasanaethau cysylltiedig ar deledu masnachol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Teledu Annibynnol yn Ionawr 2002 ac fe ddaeth i rym ar 10 Gorffennaf 2006.
- 1.4 Mae'r Cod yn berthnasol i wasanaethau teledu a reoleiddir gan Ofcom. Fodd bynnag, nid yw'n berthnasol i wasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded neu gymorth grant. Dylid dehongli'r holl gyfeiriadau at 'drwyddedigion' yn unol â hynny.
- 1.5 Mae'r Cod yn berthnasol i hyrwyddiadau y tu allan i raglenni'n unig.
- 1.6 O fewn rhaglenni, mae cyfeiriadau at bob cynnyrch a gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â darlledu, yn ddarostyngedig i'r rheolau yn Adran Naw y Cod Darlledu ar Gyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglennu Teledu.
- 1.7 Mae Cod Darlledu Ofcom yn berthnasol yn y ffordd arferol i gynnwys hyrwyddiadau y tu allan i raglenni, oni nodwyd fel arall yn yr arweiniad ar Adran Naw y Cod Darlledu.

Cefndir deddfwriaethol y Cod

- 2.1 Dan bwerau Ofcom i roi trwyddedau darlledu dan Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996, caiff trwyddedau darlledu gynnwys hynny o amodau y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol gan ddal sylw ar y dyletswyddau a osodwyd ar Ofcom dan y Ddeddfau Darlledu a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 mae pŵer gan Ofcom hefyd i gymeradwyo codau at ddibenion darpariaeth sydd mewn trwydded.
- 2.2 Dan Adran 316 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae pŵer gan Ofcom i gynnwys amodau y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol i sicrhau cystadlu teg ac effeithiol. Ar hyn o bryd mae pob trwydded darlledu teledu'n cynnwys amod trwydded ar gystadlu teg ac effeithiol. Dan yr amod hwn rhaid i drwyddedigion gydymffurfio ag unrhyw gôd neu arweiniad sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 2.3 Mae adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn gosod dyletswydd ar Ofcom i bennu safonau i sicrhau, ymysg pethau eraill, y cydymffurfir â rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig yng nghyswllt hysbysebu mewn gwasanaethau teledu. Mae'r rhwymedigaethau rhyngwladol hyn yn cynnwys y rheini a geir yn y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (Cyfarwyddeb 2010/13/EU).
- 2.4 Dylai darlledwyr fod yn ymwybodol o'r cyd-destun deddfwriaethol a fu'n sail i'r rheolau, yr egwyddorion sy'n berthnasol i bob adran, yr ystyron a roddwyd gan Ofcom a'r arweiniad a roddwyd gan Ofcom, yn y Cod hwn, ac yn y Cod Darlledu, y gallent oll fod yn berthnasol wrth ddehongli a chymhwyso'r Cod.

Egwyddorion

- 3.1 Mae dwy egwyddor allweddol y mae'n fwriad eu hadlewyrchu yn y Rheolau sydd yn Adran 4 o'r Cod:
- i) sicrhau bod trawshyrwyddiadau ar y teledu ar wahân i hysbysebu a'u bod yn hysbysu gwylwyr am wasanaethau sy'n debygol o fodd o ddiddordeb iddynt fel gwylwyr; a
 - ii) sicrhau nad yw hyrwyddiadau ar y teledu y tu allan i raglenni'n amharu ar gystadlu teg ac effeithiol (ac, yn benodol, sicrhau wrth i ddarlledu teledu yn y Deyrnas Unedig droi oddi wrth drosglwyddo analog at drosglwyddo digidol, fod defnyddwyr yn cael eu hysbysu am y gwahanol lwyfannau a gwasanaethau teledu manwerthu digidol y gallant dderbyn gwasanaethau darlledu drwyddynt ac y gwneir hynny mewn modd a fydd yn osgoi ystumio ar gystadlu teg ac effeithiol).

Rheolau

Ystyron

Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Darlledu':

Mae'r rhain yn cynnwys yr holl weithgareddau darlledu y gall Ofcom eu trwyddedu, er enghraifft gwasanaethau teledu a radio. Maent hefyd yn cynnwys gwasanaethau eraill sydd o 'natur debyg i ddarlledu', hynny yw, gwasanaethau sy'n cyflenwi cynnwys sy'n debyg i hynny a gyflenwir ar wasanaeth teledu neu radio. Yn ogystal â hynny, byddai gwefan sy'n darparu cynnwys sydd â chysylltiad amlwg ac uniongyrchol â Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â Darlledu yn gallu bod yn Wasanaeth sy'n gysylltiedig â Darlledu ei hun.

'Trawshyrwyddiadau':

Hyrwyddiadau yw'r rhain, ar sianel, o raglenni a Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Darlledu, nad ydynt yn Hunanhyrwyddiadau.

‘Trwyddedeion’:

Y rhain yw'r cwmnïau a'r endidau cyfreithiol sy'n dal trwydded darlledu a roddwyd gan Ofcom yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003).

‘Hyrwyddiadau’:

sef Hunanhyrwyddiadau a Thrawshyrwyddiadau.

‘Hunanhyrwyddiadau’:

Sef hyrwyddiadau ar sianel ar gyfer yr un sianel honno a/neu ar gyfer rhaglenni a ddarlledir ar y sianel honno.

Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â darlledu

4.1 Rhaid i'r holl drwyddedigion ac S4C sicrhau bod Trawshyrwyddiadau wedi'u cyfyngu i Wasanaethau sy'n gysylltiedig â Darlledu.

Diduedrwydd llwyfannau a gwasanaethau teledu manwerthu

4.2 Rhaid cymhwyso'r rheol ganlynol at wasanaethau analog trwyddedigion Channel 3, Channel 4 a Channel 5 (“y Prif Ddarlledwyr Daearyl Masnachol”).

Rhaid i'r Prif Ddarlledwyr Daearyl Masnachol sicrhau bod Hyrwyddiadau i aelwydydd analog ar gyfer Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Darlledu sy'n sôn am wasanaeth teledu manwerthu digidol a/neu lwyfan darlledu teledu digidol yn trin pob un o'r prif wasanaethau teledu manwerthu digidol a/neu lwyfannau digidol yn gyfartal ac yn ddiduedd. Yn benodol:

- (a) os yw hyrwyddiadau'n cyfeirio at wasanaeth teledu manwerthu digidol, fel Freeview neu Sky, rhaid iddynt hefyd enwi'r holl wasanaethau teledu manwerthu digidol eraill y mae'r Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â Darlledu ar gael arnynt;
- (b) os yw hyrwyddiadau'n cyfeirio at lwyfan digidol penodol, fel teledu daearyl digidol neu deledu cebl, rhaid iddynt hefyd gyfeirio at yr holl lwyfannau digidol eraill y mae'r Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â Darlledu ar gael arnynt.

Caniateir hyrwyddiadau cyffredinol ar gyfer teledu digidol os nad ydynt yn sôn yn benodol am unrhyw lwyfan neilltuo; ac

- (c) rhaid i hyrwyddiadau drin gwasanaethau teledu manwerthu digidol a/neu lwyfannau digidol yn gyfartal o ran bob agwedd a grybwyllir, fel prisiau, enwau brand, argaeledd a pheccynnau.

Arweiniad

- 5.1 Nid yw'r arweiniad hwn yn rhwymol ac fe'i hadolygir o bryd i'w gilydd i adlewyrchu profiadau Ofcom ag achosion unigol. Fe'i darperir i helpu trwyddedigion i ddehongli a chymhwyso'r Cod. Ymdrinnir â phob cwyn neu achos fesul un yn ôl ffeithiau penodol yr achos.

Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â darlledu

- 5.2 Nid yw Ofcom yn dymuno bod yn rhagnodol wrth ddiffinio'r term 'Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Darlledu'. Yn ôl y ffeithiau unigol, gallai gynnwys gwasanaeth lle cyflenwir cynnwys clyweledol dros lwyfan symudol neu fand eang, a fideo-ar-alwad. Mae'n wahanol i 'ddeunydd sy'n gysylltiedig â rhaglenni', sydd wedi'i ddiffinio yn Adran Naw o'r Cod Darlledu.

Cysylltiadau trawshyrwyddo

- 5.3 Mae rhai cysylltiadau rhwng darlledwyr (sy'n seiliedig ar bŵer pleidleisio neu gyfranddaliadau) yn creu tybiaeth amodol bod cymhellion digonol i'r sianel sy'n hyrwyddo ddarparu amser darlledu am ddim i sianel arall neu wasanaeth sy'n gysylltiedig â darlledu heb fod angen cydnabyddiaeth ychwanegol. Yn yr amgylchiadau penodol hyn ni fyddai Ofcom, yn nifyg tystiolaeth i'r gwrthwyneb, yn ystyried bod y Trawshyrwyddiadau hyn yn hysbysebu. Fodd bynnag, os yw Ofcom yn credu bod taliad neu ryw gydnabyddiaeth arall wedi mynd neu'n mynd rhwng y partïon, gellid ymchwilio i drefniadau o'r fath dan y rheolau ar funudau hysbysebu a gellid eu cyfrif yn funudau hysbysebu.
- 5.4 Mae'r cysylltiadau perthnasol sy'n creu'r dybiaeth hon o gymhellion digonol fel a ganlyn:

- (i) mae'r Deiliad Trwydded dros y sianel sy'n hyrwyddo'n dal 30% neu fwy o'r cyfranddaliadau (neu bŵer pleidleisio o 30% neu fwy) yn y Deiliad Trwydded dros y sianel sy'n cael ei hyrwyddo;
- (ii) mae'r Deiliad Trwydded dros y sianel sy'n cael ei hyrwyddo'n dal 30% neu fwy o'r cyfranddaliadau (neu bŵer pleidleisio o 30% neu fwy) yn y Deiliad Trwydded dros y sianel sy'n hyrwyddo; neu
- (iii) yr un yw'r Deiliad Trwydded Gwirioneddol dros y sianel sy'n cael ei hyrwyddo a'r sianel sy'n hyrwyddo.

5.5 At ddibenion y cysylltiadau perthnasol a ddisgrifir ym mharagraff 5.4³:

Ystyr 'Deiliad Trwydded Gwirioneddol' yw'r cwmni neu endid cyfreithiol sy'n dal y drwydded ddarledu a roddwyd gan Ofcom yn unol â Deddf Darledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Darledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003); ac

Ystyr 'Deiliad Trwydded' yw'r Deiliad Trwydded Gwirioneddol neu unrhyw gwmni neu endid cyfreithiol sy'n dal 30% neu fwy o'r cyfranddaliadau (neu bŵer pleidleisio o 30% neu fwy) yn y Deiliad Trwydded Gwirioneddol.

- 5.6 Os delir llai na 30% o'r cyfranddaliadau (neu lai na 30% o'r pŵer pleidleisio), efallai na fydd cymhellion digonol i ddarledwr ddarparu amser darledu am ddim i sianel neu wasanaeth arall a bydd angen i ddarledwyr ddangos nad oes dim cydnabyddiaeth wedi mynd rhwng y partïon a bod cyfiawhad dros Drawshyrwyddo ar sail cymhellion eraill.
- 5.7 Yn achos Trawshyrwyddiadau rhwng deiliaid trwydded Channel 3, bydd tybiaeth amodol nad oes dim cydnabyddiaeth wedi mynd rhyngddynt.

² Sylwch os gwelwch yn dda fod y rhan hon o'r arweiniad wedi'i diwygio ers cyhoeddi'r datganiad trawshyrwyddo ar 9 Mai 2006 drwy ychwanegu'r gair "neu". Mae'r newid hwn wedi'i wneud er mwyn dangos yn glir mai dim ond un o'r tri chysylltiad a ddisgrifir ym mharagraff 5.4 y mae angen i ddarledwr ei fodloni er mwyn creu'r dybiaeth amodol a esbonnir ym mharagraff 5.3.

³ Sylwch os gwelwch yn dda fod y rhan hon o'r arweiniad wedi'i diwygio ers cyhoeddi'r datganiad trawshyrwyddo ar 9 Mai 2006 drwy ychwanegu'r testun "At ddibenion y cysylltiadau perthnasol a ddisgrifir ym mharagraff 5.4". Mae'r newid hwn wedi'i wneud i ddangos yn glir nad yw'r diffiniadau ond yn berthnasol i'r cysylltiadau sydd wedi'u disgrifio ym mharagraff 5.4

- 5.8 Nid yw'r tybiaethau hyn yn berthnasol i gyhoeddiadau gwasanaeth cyhoeddus, apeliadau elusennol a ddarlledir yn rhad ac am ddim, cyhoeddiadau y mae Ofcom yn gofyn amdanynt a gwybodaeth i wylwyr sydd wedi'i darlledu'n unol â gofyniad gan Ofcom, sydd eisoes wedi'u heithrio o hysbysebu am dâl gan COSTA. Yn benodol, mae gwybodaeth i wylwyr a ddarlledir yn unol â gofynion i hysbysu gwylwyr am y newid i'r digidol wedi'i heithrio.

Didueddrwydd llwyfannau a gwasanaethau teledu manwerthu

- 5.9 Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â'r gofynion didueddrwydd o ran llwyfannau a gwasanaethau teledu manwerthu sydd wedi'u gosod ar drwyddedigion Channel 3, Channel 4 a Five ('y Prif Ddarlledwyr Daeacol Masnachol').
- 5.10 Er mwyn bod yn ymarferol a hefyd er mwyn bod yn berthnasol i wylwyr, mae Ofcom yn credu ei bod yn rhesymol cyfyngu ar nifer y llwyfannau a gwasanaethau teledu manwerthu y mae angen i'r Prif Ddarlledwyr Daeacol Masnachol eu crybwyll. Mae Ofcom yn credu bod sylfaen gwsmeriaid o 500,000 ("y trothwy perthnasedd") yn drothwy priodol at y dibenion hyn gan fod hyn yn cwmpasu'r prif lwyfannau a'r prif wasanaethau teledu manwerthu sydd ar gael yn eang ledled y DU.
- 5.11 Adeg drafftio hwn, mae Ofcom yn credu bod y gwasanaethau teledu manwerthu sy'n debygol o fodloni'r trothwy perthnasedd fel a ganlyn:
- y gwasanaethau teledu manwerthu lloeren digidol sy'n cael eu rhedeg gan Sky
 - y gwasanaethau teledu manwerthu cebl digidol sy'n cael eu rhedeg gan NTL/Telewest
 - y gwasanaethau teledu manwerthu daeacol digidol sy'n cael eu darparu gan Freeview
- 5.12 Bydd angen i'r Prif Ddarlledwyr Daeacol Masnachol adolygu o bryd i'w gilydd pa lwyfannau a gwasanaethau teledu manwerthu sy'n cyrraedd y trothwy perthnasedd. Mae Ofcom o'r farn y byddai data a ddarperir yng

nghyhoeddiadau ‘Digital Television Update’ Ofcom yn un ffynhonnell wybodaeth briodol am niferoedd cwsmeriaid i’r dibenion hyn.

- 5.13 Er nad yw’n ymddangos bod y trothwy perthnasedd yn cael ei fodloni yn achos unrhyw wasanaethau teledu manwerthu penodol sydd ar gael drwy gyfrwng y llwyfan band eang, mae Ofcom yn credu, er hynny, y bydd yn briodol i’r Prif Ddarlledwyr Daearyl Masnachol gyfeirio at deledu band eang⁴.
- 5.14 Fel na fydd ansicrwydd, rhaid i’r Prif Ddarlledwyr Daearyl Masnachol ddal i gydymffurfio â’r gofyniad am ddiueddrwydd os byddant, yn lle cyfeirio’n gyffredinol at lwyfannau digidol llai, yn cyfeirio at argaeledd eu sianeli ar lwyfan digidol neu wasanaeth teledu manwerthu penodol nad yw’n cyrraedd y trothwy perthnasedd (e.e. drwy sôn am enw brand penodol). Felly, mae’r trothwy perthnasedd yn gweithio mewn modd sy’n rhoi dewis i’r Prif Ddarlledwyr Daearyl Masnachol o un ai gyfeirio’n benodol at yr holl lwyfannau digidol a gwasanaethau teledu manwerthu llai lle mae eu sianeli ar gael o fewn yr ardal dderbyniad berthnasol neu wneud cyfeiriad cyffredinol fel “ar gael ar lwyfannau digidol eraill”.
- 5.15 Byddai Ofcom yn argymhell i’r Prif Ddarlledwyr Daearyl Masnachol ddefnyddio’r ddau ymadrodd canlynol wrth gyfeirio at lwyfannau neu wasanaethau teledu manwerthu priodol:
- Os nad yw’r darlledwr ond yn dymuno crybwyll llwyfannau: “ar gael drwy loeren, cebl, teledu digidol drwy’ch erial, neu drwy deledu band eang⁵”
 - Os yw’r darlledwr yn dymuno crybwyll brandiau gwasanaethau teledu manwerthu: “ar gael ar Sky, NTL/Telewest, Freeview neu lwyfannau digidol eraill”⁶

4 Sylwch os gwelwch yn dda fod y rhan hon o’r arweiniad wedi’i diwygio ers cyhoeddi’r datganiad trawshyrwyddo ar 9 Mai 2006 drwy ychwanegu ‘teledu’ o flaen y gair ‘band eang’ yn y frawddeg olaf. Gwnaethpwyd y newid i roi mwy o eglurder.

5 Sylwch os gwelwch yn dda fod y rhan hon o’r arweiniad wedi’i diwygio ers cyhoeddi’r datganiad trawshyrwyddo ar 9 Mai 2006 drwy ddisodli’r testun “ar gael drwy loeren, cebl, teledu digidol drwy’ch erial neu drwy fand eang” gyda “ar gael drwy loeren, cebl, teledu digidol drwy’ch erial neu deledu band eang”. Gwnaethpwyd y newid hwn i roi mwy o eglurder.

Arweiniad cyffredinol ar y Cod Trawshyrwyddo

- 6.1 Cyfrifoldeb y darlledwr yw cydymffurfio â'r Cod Trawshyrwyddo.
- 6.2 Gall Ofcom gynnig arweiniad cyffredinol ar ddehongli'r Cod Trawshyrwyddo. Fodd bynnag, rhoddir unrhyw gyngor o'r fath ar yr amod glir na fydd yn effeithio ar ryddid Ofcom i farnu ynghylch achosion a chwynion ar ôl darlledu ac na fydd yn effeithio ar yr arfer ar gyfrifoldebau rheoleiddio Ofcom. Dylai darlledwyr geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar unrhyw faterion sy'n codi ynghylch cydymffurfio. Ni fydd Ofcom yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod a geir o ddibynnu ar arweiniad anffurfiol.

6 Bwriedir i'r ymadrodd hwn adlewyrchu'r brandio presennol ar wasanaethau teledu manwerthu sy'n bodloni'r trothwy perthnasedd. Bydd angen i ymadrodd o'r fath gael ei newid gan y prif ddarlledwyr daearol masnachol sy'n dod o dan y gofyniad am ddiueddrwydd o ran llwyfannu i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn brandiau a wneir i'r gwasanaethau teledu manwerth.